# Ysgol Dyffryn Aeron



| | |
|---|---|
| **Teitl y Swydd:** | **Cynorthwyydd Addysgu (Calon Aeron)-** Ymddygiad/Arweiniad/Cefnogaeth (Lefel 2) |
| **Diben y Swydd:** | Gweithio (yn annibynnol ar brydiau) o dan arweiniad uwch aelodau o'r staff/staff addysgu er mwyn ymgymryd â rhaglenni gwaith / gofal / cefnogi / allanol (mewn meysydd arbenigol) i alluogi mynediad at ddysgu i'r disgyblion ac i gynorthwyo'r athro neu'r athrawes gyda rheolaeth y disgyblion a'r ystafell ddosbarth. Gall y gwaith ddigwydd yn yr ystafell ddosbarth neu oddi allan i'r prif leoliad addysgu |
| **Dyddiad Hysbyseb :** | Dyddiad Dechrau: 20/03/26 |
| | Dyddiad Cau: 06/04/26 |
| **Rheolwr llinell:** | Pennaeth / Athro Arbenigol Calon Aeron |
| **Dyddiad cychwyn y swydd:** | Mor fuan â phosib |
| **Math o Gytundeb:** | Adeg tymor yn unig |
| **Hyd y cytundeb:** | Parhaol |
| **Graddfa Cyflog:** | Gradd 4 (£25,185 *)<br><br>*Mae'r gwerthoedd cyflog yn pro-rata. |
| **Oriau Gwaith:** | 32.5 awr yr wythnos |
| **Lefel Datgeliad:** | Uwch |
| **Prif destun hysbyseb (trosolwg byr o'r Swydd Ddisgrifiad)** | **The following is an advert for a Level 2 Teaching Assistant -Behavior/Guidance/Support (Level 2), where the ability to converse through the medium of Welsh and English is essential.**<br><br>Yn eisiau mor fuan â phosib.<br><br>Cyfle euraidd i weithio mewn ysgol ardal newydd sydd â chyfleusterau modern o'r radd flaenaf, gyda Chanolfan ADY, Canolfan Iaith ac adnoddau chwaraeon gwych yn rhan o'r campws, mewn ardal odidog yng ngorllewin Cymru.<br><br>Mae Corff Llywodraethwyr Ysgol Dyffryn Aeron yn awyddus i benodi **C**ynorthwyydd Addysgu - Ymddygiad/Arweiniad/Cefnogaeth (Lefel 2) sy'n ymroddedig ac ysbrydoledig a fydd yn darparu cefnogaeth a chymorth i ddisgyblion ac Athro Calon Aeron.<br><br>Bydd yr ymgeiswyr llwyddiannus yn:<br>Gweithio o dan arweiniad uwch aelodau o'r staff/staff addysgu ac o fewn system gytunedig o oruchwyliaeth; gweithredu rhaglenni gwaith cytunedig gydag unigolion / grwpiau, oddi mewn neu oddi allan i'r ystafell ddosbarth. Gallai hyn olygu'r rhai sy'n galw am wybodaeth fanwl ac arbenigol mewn rhai meysydd, a bydd yn golygu cynorthwyo'r athro neu'r athrawes gyda'r cylch cynllunio cyflawn, yn ogystal â rheolaeth staff a rheoli/paratoi adnoddau.<br>O bryd i'w gilydd hefyd, gall staff oruchwylio dosbarthiadau cyfan yn ystod |

| | |
|---|---|
| | absenoldeb byr-dymor athrawon. Bydd y prif bwyslais ar gynnal disgyblaeth dda a chadw'r disgyblion wrth eu gwaith. Bydd angen i Oruchwylwyr Llanw ymateb i gwestiynau a rhoi cymorth cyffredinol i'r disgyblion wrth iddynt ymgymryd â gweithgareddau penodol.<br><br>Fe fydd yr ymgeisydd delfrydol yn mwynhau gweithio mewn amgylchedd prysur, drwy ddefnyddio'u menter, gydag rhagolwg bositif a gwir ddiddordeb yn cefnogi anghenion dysgu'r disgyblion.<br><br>Am ragor o wybodaeth cysylltwch â'r Pennaeth, Ms Nia Lloyd Thomas neu Mr. Pete Ebbsworth, Athro Arbenigol Calon Aeron ar 01545 908908 neu Thomasn60@hwbcymru.net<br><br>Noder: Cedwir yr hawl i ymestyn y dyddiad cau.<br><br>Mae diogelu ac amddiffyn plant yn flaenoriaethau allweddol i ni. Ein nod yw cefnogi plant, pobl ifanc a'r rhai sydd mewn perygl i sicrhau eu bod mor ddiogel ag y gallant fod. Mae'r ysgol wedi ymrwymo i ddiogelu a hybu lles plant a phobl ifanc. Disgwylir i bob aelod staff a gwirfoddolwr rannu'r ymrwymiad hwn a bydd yr ysgol yn gofyn am Wiriad Manylach y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS), sef y CRB gynt. |

## Disgrifiad Swydd

### Dyletswyddau a Chyfrifoldebau

**Cefnogi Disgyblion:**

- Goruchwylio a darparu cefnogaeth neilltuol i ddisgyblion, gan gynnwys y rheiny ag anghenion dysgu ychwanegol, gan sicrhau eu bod yn ddiogel a bod ganddynt fynediad at weithgareddau dysgu
- Defnyddio profiad/hyfforddiant/sgiliau arbenigol i ddarparu cefnogaeth allanol i ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol, gan sicrhau eu bod yn ddiogel a bod ganddynt fynediad at weithgareddau dysgu
- Cynorthwyo gyda datblygu, gweithredu ac adolygu Cynlluniau Datblygu /Ymddygiad Unigol a rhaglenni Gofal Personol
- Sefydlu perthynas adeiladol gyda'r disgyblion, gan ddatblygu strategaethau cefnogi a rhyngweithio yn unol â'u hanghenion unigol
- Hyrwyddo cynhwysiant a derbyniad i'r holl ddisgyblion
- Gosod disgwyliadau heriol sy'n gofyn llawer, a hyrwyddo hunan-werth ac annibyniaeth
- Herio a symbylu disgyblion, hyrwyddo ac atgyfnerthu hunan-werth
- Rhoi adborth i ddisgyblion ynghylch cynnydd, cyflawniad, ymddygiad, presenoldeb ac ati
- Annog y disgyblion i ryngweithio ag eraill ac i gymryd rhan mewn gweithgareddau o dan arweiniad yr athro neu'r athrawes

- Annog disgyblion i weithredu’n annibynnol, fel y bo’n briodol gan ddatblygu annibyniaeth a hunan werth

**Cefnogi’r Athro neu’r Athrawes:**

- Creu a chynnal amgylchedd pwrpasol, trefnus a chefnogol, yn unol â chynlluniau gwersi, a chynorthwyo gydag arddangos gwaith disgyblion e.e. paratoi arddangosfeydd dosbarth sy’n hyrwyddo amgylchfyd dysgu positif

- Defnyddio strategaethau, mewn cydweithrediad â’r athro neu’r athrawes, i gefnogi disgyblion er mwyn cyflawni cyrchnodau dysgu e.e. cydweithio gyda staff addysgu sy’n hybu cysondeb ar draws y wers o ran disgwyliadau

- Cynorthwyo gyda’r gwaith o gynllunio a chyflwyno gweithgareddau dysgu penodol e.e. cydweithio gydag athrawon er mwyn cynllunio a pharatoi deunyddiau dysgu ac addysgu

- Monitro ymateb disgyblion i weithgareddau dysgu penodol a chadw cofnod cywir o gyflawniad/cynnydd yn unol â’r cyfarwyddyd e.e. cofnodi cynnydd yn ystod sesiynau gweithgareddau grŵp a grwpiau ymyrraeth

- Rhoi adborth manwl a rheolaidd i’r athro neu’r athrawes ynghylch cyflawniad, cynnydd, problemau, ac ati, sy’n ymwneud â’r disgyblion e.e. monitro cynnydd disgyblion yn ystod gweithgareddau dysgu

- Hyrwyddo ymddygiad da ymhlith y disgyblion, delio ar unwaith gyda gwrthdaro ac unrhyw ddigwyddiadau, yn unol â’r polisi sefydledig, ac annog disgyblion i fod yn gyfrifol am eu hymddygiad eu hunain e.e. dilyn a defnyddio polisi ymddygiad yr ysgol yn gyson

- Sefydlu perthynas adeiladol gyda rhieni/gwarchodwyr

- Cydweithio gydag asiantaethau eraill yn ôl yr angen

- Gweinyddu/ goruchwylio profion/asesiadau arferol

- Rhoi adborth llafar i’r disgyblion ar eu gwaith yn unol â threfn yr ysgol

- Darparu cefnogaeth glerigol/weinyddol e.e. llungopïo, teipio, ffeilio, casglu arian, ac ati

**Cefnogi’r Cwricwlwm**

- Cefnogi disgyblion i gael mynediad i’r cwricwlwm e.e. cefnogi strategaethau gwahaniaethu o fewn y dosbarth wrth addasu adnoddau a rhoi adborth er mwyn sicrhau fod pob disgybl yn gwneud cynnydd

- Ymgymryd â strwythurau a gweithgareddau dysgu/rhaglenni addysgu y cytunwyd arnynt, gan addasu’r gweithgareddau yn ôl ymateb y disgyblion e.e. gweithio gyda grwpiau bychan o ddisgyblion ar dasgau o fewn a thu allan y dosbarth

- Ymgymryd â rhaglenni sydd â chyswllt â strategaethau dysgu lleol a chenedlaethol e.e. llythrennedd, rhifedd, y blynyddoedd cynnar, gan gadw cofnod o gyflawniad a chynnydd, ac adrodd yn ôl i'r athro neu'r athrawes e.e. cynnal rhaglenni ymyrraeth sy'n cefnogi datblygiad academaidd a lles disgyblion

- Cefnogi'r defnydd o TGCh mewn gweithgareddau dysgu, gan ddatblygu hyfedredd disgyblion a'u hannibyniaeth fel defnyddwyr y dechnoleg

- Paratoi, cynnal a chadw, a defnyddio offer/adnoddau sy'n angenrheidiol i gwrdd â gofynion cynlluniau gwersi/gweithgaredd dysgu perthnasol, a chynorthwyo'r disgyblion i'w defnyddio e.e. paratoi adnoddau sy'n cefnogi dysgu ac addysgu grwpiau penodol o ddisgyblion

**Cefnogi'r Ysgol**

- Bod yn ymwybodol o bolisïau a threfniadaethau perthnasol, gan gydymffurfio â hwy, yn ymwneud ag amddiffyn plant, iechyd, diogelwch a sicrwydd, cyfrinachedd a gwarchod data, a chyflwyno adroddiad ar bob testun pryder i berson priodol

- Bod yn ymwybodol o wahaniaethau a'u cefnogi, a sicrhau bod gan yr holl ddisgyblion fynediad cyfartal i'r cyfleoedd ar gyfer dysgu a datblygu

- Cyfrannu tuag at ethos/gwaith/amcanion cyffredinol yr ysgol e.e. cefnogi'r ysgol i gynnal profiadau gwerthfawr i ddisgyblion megis eisteddfod a gweithgareddau chwaraeon

- Gwerthfawrogi a chefnogi swyddogaeth y gweithwyr proffesiynol eraill

- Mynychu cyfarfodydd perthnasol yn ôl y galw a chymryd rhan ynddynt

- Cymryd rhan mewn hyfforddiant a gweithgareddau dysgu eraill a datblygu perfformiad yn ôl y gofyn e.e. mynychu hyfforddiant datblygiad proffesiynol parhaus ac yna defnyddio strategaethau newydd

- Cynorthwyo gyda'r gwaith o oruchwylio disgyblion ar adegau y tu allan i wersi, gan gynnwys cyn ac ar ôl ysgol ac yn ystod yr awr ginio

- Mynd gyda'r staff addysgu a'r disgyblion ar ymweliadau, gwibdeithiau a gweithgareddau y tu allan i'r ysgol yn ôl y gofyn, a bod yn gyfrifol am grŵp o dan oruchwyliaeth yr athro neu'r athrawes.

## Y Pum Safon Proffesiynol ar gyfer Cynorthwyo Addysgu

**Addysgeg**

Mae'r cymorth ar gyfer yr athro neu ar gyfer dysgwyr yn canolbwyntio ar ddeilliannau dysgu ac ar les. Mae'r cynorthwyydd addysgu yn rhan annatod o'r tîm sy'n cynnig cyfleoedd dysgu ac mae'n gosod esiampl. Mae'r dylanwad ar ddysgwyr eu hunain yn gadarnhaol, gan ddatblygu eu hymagwedd tuag at ddysgu a gwella'u gallu i fanteisio ar gyfleoedd dysgu fel sy'n briodol.

**Cydweithredu**

Mae'r cynorthwyydd addysgu yn gweithio gyda chydweithwyr ar bob lefel i gyflawni amcanion yr ysgol. Mabwysiedir safbwynt o ddisgwyliad, sy'n cynnwys gweithio'n effeithiol gyda chydweithwyr o ysgolion eraill a chyda theuluoedd neu bartneriaid eraill sydd ynghlwm â dysgu.

**Arweinyddiaeth**

Mae'r cynorthwyydd addysgu yn cymryd cyfrifoldeb am eu rôl o gefnogi atebolrwydd athrawon a chynnydd dysgwyr penodol. Mae'n mynd ati'n gyson i gefnogi'r gwaith o arwain timau neu'r ysgol drwy gyfrannu'n llawn er mwyn ceisio sicrhau'r deilliannau gorau i ddysgwyr.

**Arloesi**
Mae'r cynorthwyydd addysgu yn ystyried syniadau a thechnegau newydd ac yn cyfrannu at ymdrech yr ysgol i roi dulliau newydd o ddysgu ac addysgu ar waith.

**Dysgu Proffesiynol**

Mae'r cynorthwyydd addysgu yn ymdrechu i ddatblygu gwybodaeth a sgiliau newydd sydd o fudd i'r dysgwyr drwy fod yn weithgar yn yr ysgol fel cymuned sy'n dysgu. Mae'n mynd ati i gymryd rhan mewn gweithgareddau dysgu sy'n cefnogi anghenion yr ysgol neu ddysgwyr penodol.

Tra bod pob ymdrech wedi'i wneud i egluro'r prif ddyletswyddau a chyfrifoldebau'r swydd, efallai na fydd pob tasg unigol a wnaed yn cael eu nodi.

Bydd yn disgwyl i weithwyr cydymffurfio ag unrhyw gais rhesymol gan reolwr i ymgymryd â gwaith ar lefel debyg nas pennir yn y disgrifiad swydd.

Mae disgwyl i weithwyr fod yn gwrtais tuag at weithwyr eraill a darparu amgylchedd croesawgar i ymwelwyr a phobl sy'n galw dros y ffôn.

Bydd yr ysgol yn ymdrechu i wneud unrhyw addasiadau rhesymol i'r swydd a'r amgylchedd gwaith i alluogi mynediad i gyfleoedd cyflogaeth i ymgeiswyr anabl.

| Manyleb Person | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Y cymwysterau academaidd/proffesiynol/ technegol/galwedigaethol (gan gynnwys Lefel y cymwysterau) sy'n ofynnol ar gyfer y swydd** | • Sgiliau rhifedd/llythrennedd da<br>• CGC 3 (Cymhwyster Galwedigaethol Cenedlaethol – NVQ) Cynorthwywyr Addysgu neu gymhwyster neu brofiad tebyg<br>• Hyfforddiant yn y strategaethau dysgu perthnasol e.e. llythrennedd<br>• Hyfforddiant cymorth cyntaf | | | |
| **Lefel y sgiliau ieithyddol sy'n ofynnol ar gyfer y swydd**<br><br>**(Gweler y canllawiau iaith a'r ceri \| net )** | Gweler y tabl isod.<br><br>*Nodyn: Bydd gofyn i'r ymgeisydd llwyddiannus ddysgu'r Gymraeg o fewn 2 flynedd o gael ei benodi os nad ydyw eisoes yn siarad Cymraeg. | | | |
| | **Gwrando/ Siarad** | **Darllen** | **Ysgrifennu** | |
| **Cymraeg (Lefelau Fframwaith ALTE)** | **5** | **5** | **5** | **Hanfodol*** |
| **Saesneg (Lefelau Fframwaith ALTE)** | **5** | **5** | **5** | **Hanfodol*** |
| **Sgiliau ymarferol/personol sy'n ofynnol ar gyfer y swydd** | Mae'r gallu i gyfathrebu a chefnogi trwy gyfrwng y Gymraeg yn hanfodol ar gyfer y swydd yma.<br><br>• Yn frwdfrydig am addysg disgyblion ac yn cyfrannu'n llawn at fywyd a gwaith yr ysgol<br>• Gonest a dibynadwy, a pharchu cyfrinachedd<br>• Ymroddiad llwyr i roi'r profiadau gorau i ddisgyblion - eu dysgu, eu lles a'u diogelwch<br>• Brwdfrydig, gydag agwedd gadarnhaol tuag at bob disgybl a phob agwedd o fywyd yr ysgol<br>• Meddu ar sgiliau rhyngbersonol da<br>• Gallu gweithio'n effeithiol mewn tîm<br>• Dangos agwedd broffesiynol ym mhob agwedd o fywyd yr ysgol<br>• Cefnogi ethos a gweledigaeth yr ysgol<br>• Parodrwydd i ddysgu ac addasu<br>• Defnyddio llais y dysgwyr i ddatblygu Addysgu a Dysgu. | | | |
| **Profiad sy'n ofynnol ar gyfer y swydd** | • Profiad o weithio gyda phlant o'r oed perthnasol ag anghenion dysgu ychwanegol ag anableddau | | | |
| **Sgiliau/cymwysterau dymunol** | • Defnydd effeithiol o TGCh i gefnogi'r dysgu<br>• Defnydd o offer eraill technoleg– fideo, llungopïwr<br>• Dealltwriaeth o bolisïau/codau ymarfer perthnasol, ac ymwybyddiaeth o'r ddeddfwriaeth berthnasol<br>• Dealltwriaeth gyffredinol o'r cwricwlwm cenedlaethol/cyfnod sylfaen a rhaglenni/strategaethau dysgu sylfaenol eraill | | | |

| | |
|---|---|
| | • Dealltwriaeth sylfaenol o ddatblygiad a dysgu'r plentyn<br>• Y gallu i hunanwerthuso anghenion dysgu ac ymdrechu i chwilio am gyfleoedd dysgu<br>• Y gallu i ddod ymlaen yn dda gyda phlant ac oedolion<br>• Gweithio'n adeiladol a hyblyg yn rhan o dîm, deall cyfrifoldebau a swyddogaethau'r ystafell ddosbarth a'ch safle personol o fewn y swyddogaethau hynny. |
| **Hyfforddiant/addysg y mae'n ofynnol eu cyflawni/mynd ati i'w cyflawni ar gyfer y swydd** | • Sgiliau Cymhwysedd Digidol da (Microsoft 365, HWB) er mwyn cynnal profiadau digidol o'r radd flaenaf<br>• Cymryd rhan yn rhaglen dysgu proffesiynol yr ysgol<br>• Ymrwymo'n llawn i ddatblygu'n broffesiynol<br>• Hyfforddiant meddygol perthnasol yn ôl y gofyn |